



Vale of Glamorgan Council  
**Cyngor Bro Morgannwg**

# Safonau'r Gymraeg

## Adroddiad Monitro Blynyddol

**2019-20**



This document is available in Welsh  
**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg**

## 1. Cyflwyniad

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth gwych i siaradwyr Cymraeg yn yr ardal ac mae'n ymdrechu flwyddyn ar ôl blwyddyn i wella'r gwasanaeth hwnnw.

Yn ystod 2015, cyflwynwyd Hysbysiad Cydymffurfio cyfreithiol gan Gomisiynydd y Gymraeg yn nodi pa Safonau oedd yn berthnasol i'r Cyngor.

Er mwyn cyflawni'r 174 o safonau yn yr hysbysiad, datblygodd y Cyngor Gynllun Gweithredu cynhwysfawr sydd wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan. Caiff cynnydd ei fonitro'n rheolaidd a cheir crynodeb yn yr adroddiad hwn.

Gwnaethom hefyd gyhoeddi Strategaeth Hyrwyddo 5 mlynedd yn rhan o'r broses gydymffurfio sydd ar gael ar bapur yn ogystal ag ar ein gwefan. Nodir manylion am y cynnydd ar ffurf Atodiad 2.

## 2. Prif gyflawniadau 2019/20

- **Gwefan**

Yn ystod 2019/20 parhaodd y Cyngor i adolygu cynnwys ei wefan. Rydym nawr wedi dyfeisio system a fydd yn creu adroddiadau ac yn nodi unrhyw dudalennau lle nad yw'r cynnwys Cymraeg a Saesneg yr un fath. Bydd hyn yn ein galluogi i gynnal archwiliad o'r wefan yn flynyddol i sicrhau bod y cynnwys yn gwbl ddwyieithog. Mae cynnydd gyda'r Strategaeth Ddigidol a'r gwaith o gaffael ceisiadau trydydd parti yn parhau.

- **Cyfrifon cyfryngau cymdeithasol**

Mae prif gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor bob amser wedi bod yn ddwyieithog ond yn dilyn ymholiad gan aelod o'r cyhoedd ym mis Medi 2019,

cyhoeddwyd canllawiau i sicrhau bod pob un o'r 40 cyfrif Twitter a'r 26 cyfrif Facebook yn gwbl ddwyieithog yn ogystal ag unrhyw gyfrifon Instagram.

- **Y Ganolfan Gyswllt a'r Prif Dderbynfeydd**

Mae'r Cyngor yn parhau i gynnig dewis i bob galwr ymholi drwy gyfrwng y Gymraeg. 678 oedd nifer y galwyr a ddefnyddiodd y dewis hwn yn ystod 2019/20. Mae galwadau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn lleihau wrth i'r Cyngor weithredu ei strategaeth ddigidol sy'n cynnig nifer gynyddol o ddewisiadau hunanwasanaeth drwy ei wefan ac app dyfeisiau symudol. Mae'r gwasanaethau hyn ar gael yn Gymraeg a Saesneg a byddant yn parhau i fod felly hefyd.

Ar gyfartaledd yn 2019/20, arhosodd galwyr a ddefnyddiodd y dewis Cymraeg am 172 eiliad i siarad â rhywun, ac arhosodd galwyr a ddefnyddiodd y dewis Saesneg am 220 eiliad. Effeithiwyd ar berfformiad amser aros i raddau oherwydd trosiant staff cymharol uchel yn ystod y flwyddyn ac mae'n adlewyrchu'r ffaith ei bod hi'n anodd recriwtio a chadw staff sy'n siarad Cymraeg ar gyfer rolau gwasanaethau cwsmeriaid.

Ar ddiwedd y cyfnod adrodd bu cynnydd yng nghanran y staff dwyieithog yn y ganolfan gyswllt o 23% i 27%. Mae cynlluniau hyfforddiant mewn lle i gynyddu'r amrywiaeth o ymholiadau y gall y staff dwyieithog eu datrys wrth y pwynt cyswllt cyntaf. Mae'r gwasanaeth yn parhau i ddarparu gwasanaeth Cymraeg wyneb yn wyneb mewn prif dderbynfeydd corfforaethol.

Yn ystod y flwyddyn fe wnaeth y Cyngor gaffael plattform canolfan gyswllt newydd a fydd yn gwella effeithlonrwydd gweithredol ac yn cynnig sianeli cyswllt ychwanegol i gwsmeriaid, gan gynnwys sgwrsio ar y we, a gynigir trwy gyfrwng y Gymraeg. Gohiriwyd rhoi'r swyddogaeth newydd hon ar waith tan fis Ionawr 2020 ac erbyn hyn disgwylir iddi gyflawni gwelliant sylweddol o ran profiadau ar-lein a phrofiadau cwsmeriaid sy'n cysylltu yn ystod 2020/21.

- **Hyfforddiant Cymraeg**

Mae'r Cyngor wedi parhau i gefnogi dosbarthiadau Cymraeg ffurfiol i staff yn y gweithle yn ogystal â darparu sesiynau Blasu rheolaidd mewn amryw leoliadau. Mae hyn wedi helpu i gynnal nifer y staff sy'n cofrestru yn 63. Hefyd, rydym wedi parhau i alluogi staff i fynychu dosbarthiadau yn ystod oriau gwaith gyda'r cyrsiau'n cael eu hariannu gan y Tîm Cydraddoldeb a'r Tîm Addysg i Oedolion.

Mae'r rhaglen Cymraeg Gwaith a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys cwrs 'Croeso Cymraeg' y gellir ei gyrchu ar orsafoedd gwaith trwy ein StaffNet mewnol.

- **Cytundeb â Menter Bro Morgannwg**

Cytunwyd ar fframwaith ar gyfer gwaith partneriaeth yn 2019 am dair blynedd arall. Y nod yw cynnig amrywiaeth o weithgareddau cymunedol i drigolion lleol, gan gynnwys plant, pobl ifanc, teuluoedd a dysgwyr sy'n oedolion, er mwyn hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg. Mae cyfran sylweddol o'r gwaith hwn yn cyfrannu at gynlluniau ein strategaeth 5 mlynedd – gweler Atodiad 2.

- **Cytundeb cyfieithu gyda Chyngor Caerdydd**

Llofnododd y Cyngor gontract â Chyngor Caerdydd ar gyfer yr holl waith cyfieithu Cymraeg ym mis Medi 2017 yn dilyn cyfnod llwyddiannus dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth. Yn ystod 2019/20, cyfieithwyd cyfanswm o 2,229,443 o eiriau. Mae hyn yn gynydd o fwy nag 20% ar y llynedd ac yn dangos faint o waith sy'n cael ei gynhyrchu'n ddwyieithog.

- **Asesiad Sgiliau Ieithyddol**

Cynhaliodd y Cyngor ail Archwiliad Sgiliau Ieithyddol ym mis Medi 2018. Rhoddodd defnyddwyr cyfrifiaduron wybodaeth am eu sgiliau o ran y Gymraeg. Cyflawnwyd hyn trwy feddalwedd Metacompliance. Rydym wedi gallu diweddarau manylion bron

1600 aelod o staff ac mae hyn yn ein galluogi i dargedu gwybodaeth at siaradwyr Cymraeg yn ogystal â darparu rhestr ddiwygiedig at ddefnydd mewnol.

- **Gwiriwr sillafu Cymraeg/llofnodion e-byst ac ati**

Mae pob aelod o staff y Cyngor wedi derbyn copi o 'Cysgeir' ar eu cyfrifiaduron. Yn ddiweddar rydym wedi prynu trwyddedau ar gyfer y fersiwn diweddaraf o'r meddalwedd sydd wedi'i osod ar holl gyfrifiaduron y Cyngor gan alluogi staff i gyfathrebu'n haws yn Gymraeg a theimlo'n hyderus am eu gramadeg.

Rydym wedi trefnu i holl staff y Cyngor gael llofnodion dwyieithog yn cynnwys teitlau swydd, yn ogystal â chael negeseuon 'allan o'r swyddfa' dwyieithog. Yn rhan o ddatblygiad diweddar, ychwanegwyd logo amlwg at enwau'r rhai hynny sy'n rhugl yn y Gymraeg a logo arall i nodi aelodau staff sy'n dysgu Cymraeg. Hefyd mae staff sy'n siarad ac sy'n dysgu Cymraeg yn gallu gwisgo laniardiau i nodi eu sgiliau.

- **Tudalen ar StaffNet i siaradwyr Cymraeg/Nodiadau atgoffa**

Mae tudalen benodol ar ein StaffNet sy'n cynnig gwybodaeth ddefnyddiol i siaradwyr Cymraeg ac yn nodi eu hawliau o ran dogfennau mewnol. Yn ddiweddar, cynhaliwyd ymgyrch gennym o'r enw 'Meddwl Cymraeg' a oedd yn annog staff i fod yn ymwybodol o feysydd pwysicaf eu gwaith lle gall defnyddio'r Gymraeg wneud gwahaniaeth mawr. Anfonodd y Rheolwr Gyfarwyddwr e-bost yn cynnwys y poster 'Meddwl Cymraeg' a oedd ar ffurf 'neges 7 munud'.

- **Gweithio â Dysgwyr a Siaradwyr Cymraeg yn y Fro**

Yn ystod y flwyddyn mae nifer o ddigwyddiadau wedi'u cynnal i annog dysgwyr gan gynnwys teithiau i Sain Ffagan, nosweithiau adloniant a digwyddiadau canu yn ogystal â gweithdai i'r teulu.

Trefnwyd y digwyddiadau gan y tîm Dysgu Cymraeg ac maen nhw hefyd wedi cynnal dathliadau Nadolig, Canol Gaeaf a Dydd Gŵyl Dewi. Mae digwyddiadau rheolaidd

hefyd yn cynnwys dosbarthiadau adolygu i ddysgwyr, boreau coffi a Sadwrn Siarad a all ddenu hyd at 40 o bobl.

Mae dosbarthiadau hefyd wedi'u cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg yn addysgu Sgiliau Digidol yn ogystal â dosbarthiadau darllen i ddysgwyr a siaradwyr rhugl.

Caiff podlediad newydd ei ddarlledu ym mis Ebrill mewn partneriaeth â Bro Radio.

### Diwrnod Hawliau'r Gymraeg - 'Mae gen i Haw!'

Gwnaethom ddathlu'r diwrnod hwn ym mis Rhagfyr pan oedd gennym bresenoldeb ym mhrif dderbynfa'r swyddfa ddinesig yn y Barri. Cawsom gymorth gan Fenter Bro Morgannwg a thîm Dysgu Cymraeg a oedd yn gallu egluro i aelodau'r cyhoedd y gweithgareddau teuluol sydd ar gael yn Gymraeg yn ogystal â chyfleoedd dysgu.

Gwnaethom gynnig pice ar y maen a sgwrsio ag ymwelwyr am ffyrdd o gysylltu yn Gymraeg. Amser cinio gwnaethom ganu gyda'n gilydd mewn côr bach a chanodd un o'n cydweithwyr ddetholiad o ganeuon Cymraeg. Cafodd y diwrnod cyfan dderbyniad da iawn ac aeth ymwelwyr i ffwrdd gyda gwybodaeth a chardiau ag ymadroddion Cymraeg sylfaenol defnyddiol arnynt.

Cynhaliom ymgyrch barhaus ar y cyfryngau cymdeithasol cyn y diwrnod ac roedd erthyglau ar StaffNet. Cyhoeddwyd erthygl yn The Penarth Times a GEM y Barri.



### 3. Crynodeb o Gynllun Gweithredu'r Cyngor ynghyd â Chynnydd

	Cam gweithredu	Meysydd dan sylw	Rhif Cyf. Safonol	Sylw/diweddariad
1	Rhoi nodyn briffio i uwch reolwyr/aelodau etholedig i'w rannu drwy gyfarfodydd CMT/DMT a chyfarfodydd tîm	Gohebiaeth Galwadau ffôn Cyfarfodydd/apwyntiadau  Digwyddiadau Cyhoeddus  Cyhoeddi dogfennau i'r cyhoedd  Ymatebion y cyfryngau cymdeithasol  Polisiâu/strategaeth ar gael i'r cyhoedd  Trwyddedau/tystysgrifau  Hysbysiadau swyddogol  Hyrwyddo'r Gymraeg  Systemau sain	1-5 19/20/21 24-26b, 27a-d,30- 34,65-66  35-38  43-50  58-59  44 42  69-70  81-82  87	Cyflwynwyd nodyn briffio ar StaffNet ac yn y briff craidd. Mae tudalen cwestiynau cyffredin ar gael ar StaffNet.  Rhoddwyd sylw i gyfarfodydd tîm adrannol yn ystod mis Mai/Mehefin 16. Mae cyngor yn parhau i gael ei geisio gan yr uwch swyddogion corfforaethol.



2	Briffio'r Cabinet Busnes/uwch reolwyr/aelodau etholedig eraill	Gohebiaeth Galwadau ffôn Cyfarfodydd/apwyntiadau  Digwyddiadau Cyhoeddus  Cyhoeddi dogfennau i'r cyhoedd  Ymatebion y cyfryngau cymdeithasol  Polisiâu/strategaeth ar gael i'r cyhoedd  Trwyddedau/tystysgrifau  Hysbysiadau swyddogol  Hyrwyddo'r Gymraeg  Systemau sain	1-5 19/20/21 24-26b, 27a- d,30- 34,65-66  35-38  43-50  58-59  44  42  69-70  81-82  87	Cafodd aelodau'r Cabinet eu briffio ym mis Chwefror 16. Cynhaliwyd sesiynau newydd ar gyfer aelodau etholedig newydd yn 2017 a 2019.
3	Creu tudalen ar StaffNet y Cyngor i roi gwybod i staff am eu cyfrifoldebau.	Fel yr uchod.	Fel yr uchod.	Ceir rhestr o gwestiynau cyffredin ar StaffNet. Mae tudalen ar gyfer siaradwyr Cymraeg hefyd wedi'i datblygu.
4	Rhoi gwybod i staff drwy'r briff craidd a dulliau eraill.	Fel yr uchod.	Fel yr uchod.	Rhoddwyd gwybod i staff ym mis Chwefror 16 drwy'r briff craidd ac mae

				diweddariadau wedi parhau.
5	Sicrhau bod pob templed llythyr ac e-bost yn ogystal ag ymatebion i'r wasg yn dangos bod gwasanaeth Cymraeg ar gael a sicrhau bod pob aelod o staff yn ei ddefnyddio.	Gohebiaeth (yn cyfeirio hefyd at rai Safonau Gweithredol)	7 Hefyd yn ymwneud â Safonau Gweithredol 134/135	Mae templedi wedi'u cyflwyno i bob aelod o staff. Mae teitlau swyddi wedi'u cyfieithu yn ymddangos ar bob e-bost yn ogystal â logo amlwg i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg.
6	Darparu hyfforddiant 'Cwrdd a Chyfarch' i staff rheng flaen	Galwadau ffôn/cyfarfodydd	19,20,21,24-27	Cynhaliwyd hyfforddiant i staff yn 2016/17 a chynhaliwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth ar ddechrau 2018. Mae modiwl Croeso Cymraeg ar gael ar StaffNet yn rhan o fenter groeso Cymraeg Gwaith.
7	Sicrhau bod pob aelod o staff yn defnyddio negeseuon 'allan o'r swyddfa' dwyieithog. Defnyddio llofnodion i ddangos a yw staff yn siarad Cymraeg.	Gohebiaeth (yn cyfeirio hefyd at y Safonau Gweithredol)	7, Hefyd yn ymwneud â'r Safonau Gweithredol 134/138	Yn rhan o StaffNet a'r briff craidd. Mae negeseuon 'allan o'r swyddfa' wedi'u darparu i bob aelod o staff. Yn ogystal â logo i ddynodi siaradwyr a dysgwyr Cymraeg.
8	Sicrhau bod pob datganiad i'r wasg yn ddwyieithog lle y bo'n bosibl.	Cyhoeddi dogfennau a ffurflenni	46	Mae hyn wedi'i wneud o 1 Ebrill 2016 ymlaen.
9	Sicrhau bod pob taflen, dogfen, datganiad a datganiad i'r wasg a gyhoeddir yn Saesneg yn cynnwys cyfeiriad at y ffaith bod fersiwn Gymraeg ar gael ar gais.	Cyhoeddi dogfennau a ffurflenni	46	Mae hyn wedi'i wneud o 1 Ebrill 2016 ymlaen.
10	Trefnu cymorth i gychwyn y broses o wneud y wefan i gyd yn ddwyieithog.	Gwefan a gwasanaethau ar-lein	52-56	Mae'r wefan bellach yn gwbl ddwyieithog.
11	Trefnu i'r cam cyn cyflwyno ffurflenni fod yn ddwyieithog	Gwefan a gwasanaethau ar-lein	51	Mae rhaglenni mewnol i gyd wedi'u cyfieithu – mae rhaglenni allanol yn y broses o gael eu trefnu yn rhan o'r Strategaeth Ddigidol.

12	Sicrhau bod pob arwydd a/neu hysbysiad newydd yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf.	Arwyddion/hysbysiadau	61-63	Mae pob aelod o staff wedi'i atgoffa o hyn.
13	Sicrhau bod y prif dderbynfeydd yn darparu gwasanaeth Cymraeg gydag arwyddion yn rhoi gwybod bod y gwasanaeth hwnnw ar gael.	Derbynfeydd	64,67,68	Mae pob prif dderbynfa bellach yn ddwyieithog.
14	Mae'n rhaid i wahoddiadau am grantiau nodi y gellir cyflwyno yn Gymraeg ac mae'n rhaid cynnig cyfweiliadau yn Gymraeg os gofynnir am hynny. Ni cheir unrhyw oedi os defnyddir y Gymraeg. Mae'n rhaid i wahoddiadau i dendro am gontractau fod yn ddwyieithog ac mae'n rhaid iddynt nodi bod croeso i chi gyflwyno tendrau yn Gymraeg. Ni cheir unrhyw oedi os defnyddir y Gymraeg.	Grantiau/Tendrau	72-75,76-77a	Mae'r wybodaeth hon wedi'i rhannu o fewn yr Adran Gyllid.
15	Asesu pob cwrs addysg newydd a gynigir i'r cyhoedd i werthuso'r angen i'w ddarparu yn Gymraeg <u>a chadw cofnod o'r asesiad.</u>	Addysg	84-86	Rhoddwyd gwybod i'r Tîm Addysg Oedolion a'r Gwasanaeth Ieuencid am hyn.
16	Cyfieithu agendâu pob cyfarfod y Cyngor, y Cabinet, a Phwyllgorau	Democrataidd	41	Mae hyn wedi'i wneud o 1 Ebrill 2016 ymlaen.
17	Cyfieithu cofnodion pob cyfarfod y Cyngor, y Cabinet, a Phwyllgorau	Democrataidd	41	Mae agendâu yn ddwyieithog.
18	Cwblhau asesiad o'r effaith, gan gynnwys ystyriaeth o'r Gymraeg, ar gyfer pob polisi newydd neu rai	Polisiâu ac ymchwil	88-97	I'w gyflawni trwy gyfeirio at adroddiadau perthnasol y Cabinet/pwyllgorau

	wedi'u diwygio.			
19	Sefydli grwp projectau i drefnu holiadau i bob aelod o staff	Sgiliau ieithyddol a dewisiadau iaith ar gyfer ffurflenni a gweithdrefnau	104, 127,100,101-103	Cynhaliwyd ail archwiliad yn 2018 o bob aelod o staff sy'n defnyddio cyfrifiadur ac mae'r canlyniadau nawr ar gael.
20	Cyfieithu pob polisi AD	Pob Polisi AD	105 – 111	Mae pob polisi bellach wedi'i gyfieithu.
21	Codi ymwybyddiaeth staff o ran cynnig darpariaeth Gymraeg mewn cysylltiad â chontractau, cwynion a sefyllfaoedd disgyblu	Briffio	99,114,118	Mae rhestr wedi'i llunio o'r defnyddwyr hynny sy'n gofyn am wasanaeth Gymraeg. Mae tudalen ar StafNnet yn rhestru'r eitemau penodol y mae'n rhaid i ni eu darparu yn Gymraeg.
22	Paratoi tudalen ar StaffNet ac erthygl briff craidd yn rhoi gwybod i staff sy'n siarad Cymraeg am eu hawliau a rhoi cymorth i ddysgwyr.	Gweithdrefnau AD	112 – 125,141-143	Mae'r rhain bellach ar gael.
23	Rhoi meddalwedd i staff sy'n siarad Cymraeg i wirio sillafu a gramadeg, yn ogystal â rhyngwynebau Cymraeg lle y bônt ar gael.	Meddalwedd TGCh	120	Mae 'Cysgeir' wedi'i osod ar gyfrifiaduron yr holl staff.
24	Cynnig cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant Cymraeg sylfaenol i bob aelod o staff a hefyd i reolwyr os oes angen yn rhinwedd eu swydd. Dylai hyfforddiant pellach fod am ddim i'r cyflogai.	Hyfforddiant	130 -131	Mae cyrsiau blasu yn cael eu cynnal ac mae hyn wedi helpu i gynyddu nifer y dysgwyr ar gyrsiau llawn amser. Mae pob cwrs Cymraeg am ddim ac yn ystod oriau gwaith.
25	Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg	Hyfforddiant	132	Mae pedair sesiwn wedi'u cynnal hyd yn hyn ac mae mwy wedi'u cynllunio ar gyfer 2020. Darparwyd y rhain drwy'r fenter Cymraeg Gwaith.

26	Cynnwys gwybodaeth am y Gymraeg yn y Cwrs Sefydlu Corfforaethol	Hyfforddiant	133	Mae gwybodaeth Gymraeg yn cael ei chyflwyno mewn sesiynau sefydlu.
27	Asesu pob swydd newydd a swydd wag ar gyfer y lefel ofynnol o allu Cymraeg fel y bo'n briodol – Hanfodol/Angen ei dysgu/Dymunol/Dim Angen	Adolygu gweithdrefnau	136	Mae pob rheolwr wedi cael gwybod. Mae pob swydd bellach wedi'i chategoreiddio naill ai fel Cymraeg Hanfodol neu Ddymunol
28	Mae'r holl ddeunydd perthnasol yn ymwneud â recriwtio ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.	Gweithdrefnau recriwtio/dethol	137	Wedi'u cyfieithu ac yn cael eu dosbarthu yn ôl yr angen.
29	Paratoi polisi ar ddefnydd mewnol o'r Gymraeg	Ymwybyddiaeth	98	Mae copi ar gael. Mae angen adolygu hyn.
30	Dylai'r fewnwyd fod ar gael yn Gymraeg – hafan, tudalennau newydd/wedi'u diwygio a dewislenni.	Tîm Cyfathrebu/TGCh	122-126	Mae tudalennau dwyieithog ar gael ar y Staffnet.
31	Cyrsiau AD penodol i'w cynnal yn Gymraeg - <ul style="list-style-type: none"> <li>- Recriwtio a Chyfweld</li> <li>- Rheoli Perfformiad</li> <li>- Gweithdrefnau Cwyno a Disgyblu</li> <li>- Sefydlu</li> <li>- Delio â'r cyhoedd</li> <li>- Iechyd a Diogelwch</li> </ul>	Hyfforddiant AD	128	Mae'r canlynol wedi'u cynnal - Gweithdy digidol Sadwrn Siarad Sgwrs Fawr Mae cyrsiau ar-lein yn cynnwys - Diogelu Trais yn y Cartref Prevent
32	Darparu hyfforddiant ar ddefnydd effeithiol o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd AD	Hyfforddiant	129	Bydd hyn yn cael ei drefnu yn 2020.
33	Nodi aelod o staff ym mhob adran i weithredu fel hyrwyddwr.			Mae hyn wedi'i wneud ac mae rhestr ar gael.

--	--	--	--	--

#### 4. Gwybodaeth am berfformiad

Mae'r Cyngor yn casglu ac yn adrodd gwybodaeth am bob mesur sy'n fesur statudol cenedlaethol ac mae'n pennu targedau ar ei gyfer. Rydym hefyd wedi mabwysiadu nifer gyfyngedig o ddangosyddion lleol sy'n cynorthwyo'r gwaith o fesur cynnydd yn erbyn y cynllun hwn. Mae'r wybodaeth hon ar gael yn gyhoeddus drwy Gynllun Gwella'r Cyngor a thrwy cynlluniau gwasanaeth, sy'n cael eu cyhoeddi bob blwyddyn ac sydd ar gael ar wefan y Cyngor - [www.bromorgannwg.gov.uk](http://www.bromorgannwg.gov.uk).

Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor yn cyhoeddi'r adroddiad hwn yn adran Cydraddoldeb gwefan y Cyngor ynghyd â data arall am faterion iaith.

Mae'r wybodaeth isod yn ymwneud â dangosyddion ar gais Comisiynydd y Gymraeg

<p><b>Safon 158 (2) 164 (2) 170 (2d)</b></p> <p><b>Nifer y cwynion am weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg.</b></p> <p>Bydd y dangosydd perfformiad hwn yn cael ei fesur ar sail nifer y cwynion am gynnwys neu'r dull o weithredu Safonau'r Gymraeg.</p>	<p>Dim ond un gŵyn a gawsom drwy Gomisiynydd y Gymraeg a gafodd ei chanslo ar ôl hynny.</p> <p>Cawsom ddau sylw drwy Twitter a gofnodwyd gennym ac sydd wedi ein hysgogi i newid ein systemau.</p>
<p><b>Safon 170 (2a)</b></p> <p><b>Nifer y staff gyda sgiliau Cymraeg yn y Cyngor.</b></p> <p>Mae'r dangosydd hwn wedi'i fesur fel rhan o'r Arolwg Sgiliau Ieithyddol ym mis Medi 2018.</p>	<p>Cynhaliwyd arolwg sgiliau ieithyddol ar ddiwedd 2018 o holl ddefnyddwyr cyfrifiaduron. Dangosodd hyn fod 122 aelod o staff yn disgrifio eu sgiliau fel 'da' neu 'rhugl' o 1572 ymateb. Mae hyn yn cyfateb i ganran o 6%.</p>

<p><b>Safon 170 (2b)</b></p> <p><b>Nifer y staff sy'n ymgymryd â hyfforddiant ac i ba lefel/radd o hyfedredd.</b></p> <p>Bydd hyn yn seiliedig ar nifer y staff sy'n ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg a ddarperir gan y Cyngor. Adroddir y mesur hwn fel rhif o dan bob un o'r categorïau: Mynediad a Sylfaen; Canolradd; Uwch; Uwch/Meistroli.</p>	<p><u>2019-2020</u></p> <p>Lefel Mynediad    24</p> <p>Sylfaen            21</p> <p>Canolradd        10</p> <p>Uwch/Meistroli   8</p> <p>Cyfanswm. <b>63</b></p>
<p><b>Safonau 154, 170 ch)</b></p> <p><b>Nifer y swyddi newydd a gwag a gategoreiddiwyd fel Cymraeg hanfodol a dymunol.</b></p>	<p>Rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020 – cafodd 535 o hysbysebion eu logio:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>•            27 Cymraeg yn hanfodol</li> <li>•            508 Cymraeg yn ddymunol</li> </ul> <p>Mae pob hysbyseb naill ai'n nodi bod y Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol.</p>

Blaenoriaeth y Cyngor ar gyfer 2020/21 yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu a hyrwyddo defnydd o'r iaith yn y Fro.